| Cyfenw | | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | | 0 |

# TGAU

3000N20-1

A22-3000N20-1

**DYDD GWENER, 11 TACHWEDD 2022 – BORE**

# CYMRAEG IAITH
## Uned 2
## Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

2 awr

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A (Darllen)** | **30** | |
| **Adran B (Ysgrifennu)** | **40** | |
| **Cyfanswm** | **70** | |

3000N201 01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A a B1.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B2 ar gyfer y dasg ysgrifennu.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

Adran A - tua 10 munud yn darllen
- tua 50 munud yn ateb y cwestiynau

Adran B1 - tua 10 munud

Adran B2 - tua 10 munud yn cynllunio
- tua 40 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

NOV223000N20101

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Mae 5 darn darllen ar y thema ‘Ymgyrchu’ yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân.
Darllenwch **bob un** o’r darnau’n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Miliwn o Siaradwyr: 2050**

**A1.** Edrychwch ar **Siart 1**. Faint o siaradwyr Cymraeg mae’r siart yn ei ragdybio fydd yng Nghymru yn y flwyddyn 2051? [1]

..............................................................................................................................................................

**A2.** Edrychwch ar **Siart 2**. Ym mha awdurdod yr oedd y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn 2018? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Gwynedd ☐

Casnewydd ☐

Wrecsam ☐

Ynys Môn ☐

**Darn Darllen 2**
**Pont Trefechan**

**A3.** Darllenwch y gosodiadau isod yn ofalus a nodwch a ydyn nhw’n **gywir** neu’n **anghywir** drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [2]

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Cafodd darlith Tynged yr Iaith ei thraddodi gan Saunders Lewis yn 1963. | | |
| Mae Pont Trefechan yn sir Ceredigion. | | |
| Sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg o ganlyniad i’r brotest ar Bont Trefechan. | | |
| Roedd y mwyafrif o’r myfyrwyr yn y brotest yn fyfyrwyr yng Ngholeg Bangor. | | |



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**A4.** Nodwch **un** peth a ddigwyddodd o ganlyniad i ymgyrch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**Darn Darllen 3**
**'Aberth Fawr Teulu'r Beasley'**

**A5.** Edrychwch ar y geiriau sydd mewn **print trwm** yn y frawddeg isod: [1]

> 'Roedd Mam **yn berwi** pan fu'r beilïaid mor ddigywilydd â gofyn iddi a oedd ganddi ddarn o linyn iddyn nhw glymu'r carped i'w gludo i ffwrdd!'

Beth yw'r nodwedd arddull a ddefnyddir gan yr awdur? Rhowch ✓ yn y blwch wrth ochr yr ateb cywir.

| | |
|---|---|
| Cymhariaeth/Cyffelybiaeth | ☐ |
| Cwestiwn Rhethregol | ☐ |
| Ansoddair | ☐ |
| Trosiad | ☐ |

**A6.** Beth mae'r nodwedd yn ei ddweud wrthym ni am ymateb ei mam i'r beilïaid? [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

3000N201
03

Arholwr yn unig

**A7.** Eglurwch beth yw arwyddocâd y teitl 'Aberth Fawr Teulu'r Beasley'.
Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn darllen er mwyn cefnogi eich sylwadau. [3]

Arholwr yn unig

**A8.** Sut mae Delyth Prys yn disgrifio brwydr Eileen a Trevor Beasley? [5]

3000N201 05

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 4**
**'Greta: Gelyn y Gwrthamgylcheddwyr'**

**A9.** Ym mha flwyddyn y dechreuodd Greta Thunberg ei hymgyrch yn erbyn newid hinsawdd? Rhowch ✓ yn y blwch wrth ochr yr ateb cywir. [1]

2008 ☐

1756 ☐

2018 ☐

2020 ☐

**A10.** Pa ymadrodd yn y darn isod sy'n golygu bod Greta wedi gwneud y penderfyniad i ddelio â'r broblem hon yn ei ffordd ei hun?

Tanlinellwch yr ymadrodd. [1]

| |
|---|
| Felly, mae Greta wedi torri cwys wahanol ac wedi defnyddio ei llais i'n cynrychioli a dangos i'r byd ein bod yn ymwybodol o'r argyfwng mae'r blaned yn ei wynebu. |

**Darnau Darllen 4 a 5**
**'Greta: Gelyn y Gwrthamgylcheddwyr'**
**Malala: Mewn undeb mae nerth**

**A11.** **Cymharwch** brofiadau a dylanwad Greta Thunberg a Malala Yousafzai wrth iddyn nhw fynd ati i ymgyrchu. Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen i gefnogi eich ateb. [7]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

3000N201
07

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

3000N201 09

Arholwr yn unig

**A12. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Mae'n rhaid i chi gofio .................................................................... pob gwall er mwyn cyflwyno'r gwaith yn berffaith i'r athro.

anghofio ☐

dileu ☐

astudio ☐

darllen ☐

(ii) Darllenwch y brawddegau isod. Mae angen i chi ddewis **un pâr** o eiriau o'r rhestr sy'n dilyn i lenwi'r bylchau yn y brawddegau. Rhowch ✓ yn y blwch priodol i ddangos y pâr o eiriau sy'n addas i'r brawddegau. [2]

Dyma'r dasg ................................................ . Hyd yn hyn ................................................ dim rhaid i mi feddwl llawer wrth ateb y cwestiynau.

hawsaf… Does ☐

hawdd… Roedd ☐

cyflymach… Doedd ☐

anos … Mae ☐

(iii) Dewiswch **ddau** air o'r rhestr ganlynol a'u gosod yn y bylchau priodol. [2]

**hynaf** **hŷn** **hyn**

(a) Roedd Sioned yn .................................................................... na Mari ond yn iau na Nanw.

(b) Roedd ei chwaer yn iau na Mabli ond Huw ei brawd oedd yr ................................................ .



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## ADRAN B (Ysgrifennu): 40 marc

**B1. Prawf ddarllen**

(i) Darllenwch y frawddeg ganlynol. Mae tri gwall ynddi. Chwiliwch am y **tri** gwall a'u cywiro nhw yn y tabl sy'n dilyn y frawddeg. [3]

> Yn y gerdd hwn mae'r bardd yn defnyddio cyffelybiaethau i disgrifio ei bryderon ef yn efeithiol.

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

(ii) Pa **un** o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

Rydw i wedi gofyn iddych chi ddewis yr ateb cywir. ☐

Rydw i wedi gofyn i chi ddewis yr ateb cywir. ☐

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [1]

Doedd Aled ddim yn gwybod y bechgyn a welodd yn y parc.

..............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**B2.** Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau **ysgrifennu**.

Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.

**Naill ai,**

(a) Dychmygwch eich bod yn cymryd rhan mewn protest. Ysgrifennwch gofnod dyddiadur yn disgrifio eich profiad o fod yn rhan o'r brotest hon.

**Neu,**

(b) Dychmygwch eich bod chi eisiau newid rhywbeth yn eich ysgol chi er mwyn gwella bywyd y disgyblion yno. Ysgrifennwch gyflwyniad i bennaeth eich ysgol yn cyflwyno'r newid hwn. Yn eich cyflwyniad, dylech esbonio pam rydych eisiau gweld y newid a pha effaith y byddai'n ei gael.

Mae 20 marc am gyfathrebu a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir. [35]

- Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.
- Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.
- Gallwch ddefnyddio'r tudalennau ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn os bydd angen.
- Dylech geisio ysgrifennu rhwng 350 a 500 o eiriau.

CYNLLUN:



© WJEC CBAC Cyf. (3000N20-1)

Arholwr yn unig

TEITL:

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr
yn unig

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
| --- | --- |
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf.